

ADEILADU GWEITHLU SY'N BAROD AR GYFER Y DYFODOL, HEDDIW

Wedi'i
Ariannu'n
Llawn*

Cwrs Prifysgol Byr a Hyblyg:

GWELLIANT PARHAUS GYDA DIWYDIANT 4.0

- » Ansawdd Gwregys Gwyrdd
- » Chwe Sigma Prosiect Grŵp

“ Mae tîm MADE Cymru yn Y Drindod Dewi Sant wir yn deall gweithgynhyrchu ac wedi rhoi eu blynyddoedd o brofiad i mewn i'r cwrs 'Gwelliant Parhaus gyda Diwydiant 4.0'. Mae angen inni dyfu gweithgynhyrchu yng Nghymru, nawr yn fwy nag erioed. Dyma ffordd hawdd o fuddsoddi yn eich staff a'ch sefydliad ar gyfer y dyfodol. ”

Jack Yates, Rheolwr Gyfarwyddwr Hi-Mark Automotive.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



Sicrhewch fod eich tîm yn barod at y dyfodol gyda MADE Cymru

Ym myd gweithgynhyrchu sy'n esblygu'n gyson, mae Gwelliant Parhaus gyda Diwydiant 4.0 yn gyfle i archwilio technolegau newydd Diwydiant 4.0 a all helpu ein taith Gwelliant Parhaus, gyda'r potensial i gynyddu effeithlonrwydd, cynyddu cynhyrchiant i'r eithaf a diogelu ein diwydiant gweithgynhyrchu yn y dyfodol.

Gwregys Gwyrdd Chwe Sigma Mae'r pynciau'n cynnwys:

- » Proses DMAIC Chwe Sigma; Diffinio, Mesur, Dadansoddi, Gwella a Rheoli.
- » Pynciau fel Llif Prosesau, Llais y Cwsmer, Systemau Mesur, Gallu Prosesau, Rheolau Nelson, Delweddu Data, Dadansoddi Gwraidd y Broblem, Cynllunio Arbrofion a Rheoli Risg ac ati.
- » Cymhwyso'r offer hyn yn effeithiol i gefnogi pob cam o brosiect Chwe Sigma.
- » Nodi technolegau perthnasol Diwydiant 4.0 i gefnogi Gwelliant Parhaus.
- » Integreiddio technolegau Diwydiant 4.0 ar gyfer offer presennol ac offer etifeddol.

Prosiect Grŵp Mae'r pynciau'n cynnwys:

- » Defnyddio technolegau Diwydiant 4.0 gyda disgyblaethau Chwe Sigma mewn prosiectau yn y gweithle.
- » Cyflwyniad i fethodolegau Gweithio mewn Tîm, gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau tîm.
- » Dulliau adrodd a chyflwyniadau Chwe Phanel Chwe Sigma.
- » Tiwtorialau prosiect bob pythefnos gydag ymarferwyr Gwelliant Parhaus.

Prosiectau grŵp sy'n sicrhau effaith economaidd

Mae myfyrwyr sy'n cymryd rhan yn ein prosiectau grŵp yn dod â manteision economaidd gwirioneddol i'r cwmnïau maen nhw'n gweithio iddynt. Gellir rhoi gwybodaeth a sgiliau a gafwyd ar brynhawn dydd Gwener ar waith yn y gwaith for fuan â'r dydd Llun canlynol, gan ddarparu proses ddysgu wirioneddol ymarferol a buddiol i'r cyfranogwyr a'u cyflogwyr. Rydyn ni'n cefnogi'r prosiectau Gwelliant Parhaus hyn drwy diwtorialau prosiect bob pythefnos gydag ymarferwyr Gwelliant Parhaus profiadol.

Ni ddylai uwchsgilio eich gweithlu amharu ar eich busnes, felly rydyn ni wedi'i wneud mor hawdd a hyblyg â phosibl i chi.

Ffordd hyblyg o ddysgu tra byddwch yn gweithio

Rydyn ni'n cynnal ein sesiynau ar-lein ar brynhawniau Gwener bob wythnos, ac mae ein hamgylchedd dysgu rhithwir yn golygu y gallwch fynychu darlithoedd o unrhyw le, gyda chyfathrebu a chydweithredu amser real yn digwydd ar-lein rhwng cyfranogwyr y cwrs.

Mae'r carfanau'n cynnwys myfyrwyr o wahanol rolau, cefndiroedd a sectorau gweithgynhyrchu, ac mae hyn yn dod â chyfoeth i'r garfan a'r dysgu.

Bydd myfyrwyr yn gorffen y cwrs 32 wythnos gyda chymhwyster Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant achrededig, ond ni fydd angen i chi aros nes bydd y rhaglen wedi'i chwblhau i gymhwyso'r sgiliau a ddysgwyd ar unwaith.

Cyfres o raglenni yw MADE Cymru sydd wedi'u cynllunio i lywio sefydliadau drwy'r rhaglen Diwydiant 4.0 drwy ymchwil a datblygu cydweithredol ac uwchsgilio. Mae wedi'i hariannu'n rhannol/llawn gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop/Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru.

Rhestr lawn o gyrsiau ardystiedig Y Drindod Dewi Sant a gynigir gan MADE Cymru:

- » **Gwelliant Parhaus gyda Diwydiant 4.0**
(Tystysgrif 40 credyd Lefel 5)
- » **Gweithgynhyrchu Clyfar gyda Diwydiant 4.0**
(Tystysgrif 40 credyd Lefel 7)
- » **Gweithgynhyrchu Uwch Diwydiant 4.0** (MSc Lefel 7)
(opsiwn i astudio modiwlau unigol os dymunir)
- » **Gwella Busnes gyda Rheoli Arloesedd**
(Tystysgrif 40 credyd Lefel 7)
- » **Rheoli Arloesedd Rhyngwladol** (MSc Lefel 7)



Yn ogystal â chyfleoedd dysgu, rydym ni hefyd yn gwahodd gweithgynhyrchwyr i gymryd rhan yn ein rhaglen Ymchwil a Datblygu cydweithredol Peirianeg Dylunio Uwch, lle gallwch elwa o gefnogaeth ac arbenigedd ein tîm, sy'n defnyddio eu gwybodaeth a'u profiad i gynnig ystod eang o ddulliau a thechnolegau a allai helpu i ddod â'ch prototeip neu gysyniad yn fyw.

Mae gan dîm MADE Cymru hanes cadarn o weithio gyda chwmnïau a rhanddeiliaid yn y sector a gallant helpu i hwyluso cydweithio neu gynnig cyngor ac atgyfeiriadau. Gallwn eich cefnogi i lywio heriau gweithgynhyrchu modern a'ch helpu i ddod o hyd i'r ateb sydd ei angen arnoch.